**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth,
Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

6 Ionawr 2025

Annwyl Mike,

Ynghylch: sesiwn graffu weinidogol ar y cyd ar gyfiawnder troseddol

Ar 23 Rhagfyr, cawsoch gopi o'n gohebiaeth â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, lle gwnaethom gynnig cynnal sesiwn graffu weinidogol ar y cyd ar faterion ym maes cyfiawnder troseddol. Ein gobaith yw y bydd y ddwy Lywodraeth yn cytuno i'n cynnig i hwyluso deialog well ynghylch sut i wella system yr ymddengys ei bod yn gwneud cam â gormod o bobl yng Nghymru.

Fel y nodir yn y llythyr, mae ein gwaith blaenorol wedi canolbwyntio'n bennaf ar faterion sydd naill ai wedi'u datganoli, neu'n gorgyffwrdd yn sylweddol â chyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, neu'n effeithio arnynt. Rydym yn ymwybodol bod carchardai a chyfiawnder yn faterion a gedwir yn ôl ar hyn o bryd.

Hoffwn sicrhau bod ein dull gweithredu yn gyflenwol lle bo'n bosibl, a bod modd archwilio cyfleoedd posibl ar gyfer cydweithio petaech yn dymuno gwneud hynny. Yn amodol ar safbwyntiau ein Haelodau priodol, mae'n bosibl y byddai'n ddefnyddiol ystyried trefniadau dirprwyo neu rapporteur. Fel arall, gallem gytuno ar fecanwaith ar gyfer rhannu gwybodaeth a darparu diweddariadau ar adegau allweddol. O ran cydweithio â phwyllgorau eraill, mae ein profiadau blaenorol wedi cynnwys defnyddio gwahanol ddulliau ar wahanol adegau. Felly, nid ydym yn gaeth i un dull gweithredu.

Byddwn yn ddiolchgar i gael eich barn ar y materion hyn, a byddwn yn hapus i drefnu cyfarfod i'w trafod ymhellach pe byddai hynny o gymorth.

Cofion cynnes,

Yn gywir,

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru